# Llawdriniaeth twll clo gan ddefnyddio crondoplasteg radioamledd i dynnu diffygion bach mewn cartilag yn y pen-glin

Mehefin  2014

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae'r driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i'w defnyddio yn y GIG. Byddai rhagor o waith ymchwil ar effeithiau hirdymor y driniaeth hon yn ddefnyddiol. Mae NICE yn gofyn i weithwyr iechyd proffesiynol nodi sut y caiff unrhyw gleifion sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil eu dewis, a' r math o niwed a gaiff ei drin.

## *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol roi eglurhad llawn o'r hyn sy'n gysylltiedig â chael llawdriniaeth twll clo gan ddefnyddio crondoplasteg radioamledd, a thrafod y risgiau a'r manteision posibl gyda chi. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dylai hyn oll ddigwydd cyn i chi benderfynu a ydych am gael y driniaeth hon ai peidio. Efallai y bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn gofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth os byddwch yn cymryd rhan mewn astudiaeth.

### Sylwadau eraill gan NICE

Dywedodd NICE mai dim ond digon o dystiolaeth i ystyried effeithiau'r driniaeth ar ddiffygion bach yn y cartilag articwlar yn y ben-glin, a achosir gan amlaf gan drawma, ymhlith cleifion iau. Dywedod NICE nad oedd digon o dystiolaeth i edrych ar effeithiau niwed mwy helaeth i gartilagau ymhlith cleifion hŷn sydd ag osteoarthritis.

## Eich tîm gofal iechyd

Dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i gyflawni llawdriniaeth twll clo gan ddefnyddio abladiad radioamleddddylai ymgymryd â'r driniaeth hon, a dylent gymryd gofal arbennig i osgoi anafiadau llosgi.

## Y cyflwr

Gall y cartilag dros ymylon yr esgyrn yn y pen-glin (y cartilag articwlar) gael ei niweidio gan drawma, sy'n arwain at ddiffygion bach (a elwir yn ddiffygion condrol arwahanol). Gall y diffygion hyn achosi i'r cymal fynd yn boenus, yn chwyddedig ac yn anodd ei symud. Mae'r cyflwr fel arfer yn gronig a gall arwain at osteoarthritis.

Mae'r opsiynau o ran triniaeth yn dibynnu ar faint a lleoliad y diffygion. Maent yn cynnwys cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd, pigiadau corticosteroid neu bigiadau asid hyalwronig i leddfu poen a llid. Efallai y caiff ffisiotherapi ac ymarfer corff eu defnyddio hefyd er mwyn helpu i wella'r ffordd y mae'r pen-glin yn gweithio a symudedd.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio llawdriniaeth twll clo gan ddefnyddio crondoplasteg radioamledd fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Nod crondoplasteg radioamledd ar gyfer diffygion bach yng nghartilag y pen-glin yw lleihau'r niwed i gymal y pen-glin. Mae'n defnyddio gwres i wneud ochrau garw'r diffygion yn esmwyth.

Caiff y llawdriniaeth ei chynnal fel arfer gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol a thrwy lawdriniaeth agored. Caiff offeryn hir, tenau, siâp tiwb gyda chamera ar ei ben, ei fewnosod drwy doriadau bach o amgylch y pen-glin. Gan ddefnyddio monitor fideo i weld yr hyn maent yn ei wneud, mae'r llawfeddyg yna'n gosod stiliwr radioamledd ac yn ei ddefnyddio i gynhesu ac esmwytho unrhyw ddiffygion ac ymylon garw yn y cartilag.

## Manteision a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynodd, er ei bod yn gyfyngedig, ei bod yn dangos manteision byrdymor, ac nad oes unrhyw bryderon diogelwch mawr. Felly penderfynodd NICE bod y driniaeth yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio ar y GIG. Roedd yr wyth astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 347 o gleifion.

Dangosodd rhai o'r astudiaethau y manteision canlynol o'u cymharu â thriniaeth lawfeddygol arall. Roedd y canlynol yn berthnasol i gleifion a gafodd grondoplasteg radioamledd:

- gallent ddychwelyd i'r gwaith tua phum diwrnod yn gynt
- roedd angen llai o gyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd arnynt
- roeddent yn cael llai o boen a symptomau eraill
- roeddent yn gallu cyflawni gweithgareddau bob dydd a chymryd rhan mewn chwaraeon yn haws
- roedd ganddynt ansawdd bywyd gwell.

Canfu astudiaeth fechan a oedd yn edrych ar y broses wella fod y diffygion wedi gwella'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer dros hanner y cleifion, ac nid oedd unrhyw waethygu wedi digwydd mewn un rhan o dair o gleifion. Cafodd rhai cleifion niwed cynyddol i'r cartilag ar ôl y driniaeth.

Roedd risgiau crondoplasteg radioamledd yn cynnwys:

- un achos o losgiadau eilaidd pan gafodd yr offer ei ddefnyddio'n anghywir
- math o niwed i'r esgyrn a elwir yn osteonecrosis ymhlith dau o bob 50 o bobl
- rhan o'r stiliwr radioamledd yn dod yn rhydd yn y pen-glin ymhlith saith o gleifion.

Os hoffech wybod mwy am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?

- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Egluro termau meddygol

### Cartilag articwlar

Meinwe wydn, lyfn, elastig sy'n gorchuddio ymylon yr esgyrn sy'n ffurfio cymalau. Mae'n helpu esgyrn i symud dros ei gilydd yn ddidrafferth ac yn gweithredu fel siocleddfwr.

### Osteoarthritis

Cyflwr sy'n digwydd pan fo'r cartilag sy'n gorchuddio pen yr esgyrn mewn cymal yn treulio neu'n cael ei niweidio fel bod y cymal yn mynd yn boenus ac yn llidus.

### Osteonecrosis

Math o niwed i'r asgwrn lle mae'r asgwrn yn marw oherwydd cyflenwad gwaed gwael.

### Abladiad radioamledd

Defnyddio ynni gwres i dynnu meinwe annymunol.

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllaw ymyriadau NICE yn cynghori'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN 978-1-4731-0710-6